Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Uwchradd Aberteifi

**Park Place**
**Aberteifi**
**Ceredigion**
**SA43 1AD**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Uwchradd Aberteifi

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Uwchradd Aberteifi |
| Awdurdod lleol | Ceredigion |
| Iaith y darparwr | C Dwyieithog |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 623 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 546 |
| Nifer yn y chweched dosbarth (os yw'n berthnasol) | 76 |
| Canran y disgyblion o oed ysgol statudol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd<br><br>*(Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector uwchradd yw 18.7%)* | 17.2% |
| Canran y disgyblion o oed ysgol statudol y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a)<br><br>(*Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector uwchradd yw 21.7%*) | 15.8% |
| Canran y disgyblion o oed ysgol statudol sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 21.3% |
| Canran y disgyblion o oed ysgol statudol sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 1.5% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | Ionawr 2012 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 13-01-2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru: fyysgolleol.llyw.cymru

(a) Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn Ysgol Uwchradd Aberteifi yn bobl ifanc ystyriol a chyfeillgar, sy’n dangos gofal am ei gilydd, a pharch tuag at staff ac ymwelwyr. Maent yn awyddus i’w hysgol fod yn gynhwysol, ac yn awyddus i ddathlu gwahaniaeth a hyrwyddo cydraddoldeb. Mae agweddau cadarnhaol disgyblion at ddysgu yn nodedig. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos moeseg waith gref ac awydd diffuant i ddysgu a gwella.

Mae lles y disgyblion yn flaenoriaeth allweddol i’r ysgol, yn enwedig yn sgil y pandemig. Mae’r ddarpariaeth i gynnig gofal, cymorth ac arweiniad i ddisgyblion yn helaeth, ac mae staff yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o’u rôl i gadw disgyblion yn ddiogel. Roedd pob un o’r disgyblion y siaradwyd â nhw yn ystod yr arolygiad yn gallu enwi staff a lleoedd yn yr ysgol y byddent, ac y maent, yn troi atynt pan fydd angen cymorth arnynt. Mae Canolfan Seren Teifi yn darparu amgylchedd ysgogol a chefnogol lle mae disgyblion ag anghenion dwys yn datblygu ystod eang o fedrau, ac agwedd eithriadol o gadarnhaol tuag at ddysgu.

Mae disgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn dda. Yn benodol, maent yn elwa ar gyfleoedd i ddarllen ar goedd a datblygu eu medrau rhifedd mewn cyd-destunau perthnasol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau Cymraeg na’u medrau digidol yn ddigon da.

Mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau a’u rhoi yn eu trefn yn briodol, gan roi cymorth buddiol i ddisgyblion. Maent yn herio disgyblion yn effeithiol ac yn defnyddio cyfuniad addas o gwestiynau caeedig ac agored. Mewn lleiafrif o wersi, nid yw disgyblion yn cyflawni eu llawn botensial. Cynigir adborth llafar defnyddiol i ddisgyblion yn y dosbarth, ond, at ei gilydd, nid yw staff wedi sicrhau cydbwysedd addas rhwng adborth cyffredinol i ddosbarth cyfan ac adborth personoledig i unigolion.

Mae dysgu proffesiynol yn gryfder. Yn benodol, mae’r dysgu proffesiynol yn gysylltiedig â medrau addysgu ac arweinyddiaeth yn cael effaith wirioneddol. Mae athrawon yn datblygu ac yn addasu eu harferion yn effeithiol ar sail y dysgu proffesiynol y maent wedi’i gael. Mae hyn yn cael effaith arbennig o gadarnhaol ar y ffordd y mae disgyblion yn galw dysgu blaenorol i gof. Gellir gweld effaith cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer arweinwyr canol yn y ffordd y mae llawer ohonynt yn arwain eu cyfadrannau yn effeithiol, ac yn deall y cryfderau a’r hyn y mae angen ei wella.

Mae’r pennaeth yn eiriolwr angerddol dros yr ysgol, ei disgyblion a’r gymuned leol. Ar y cyd â’r tîm arweinyddiaeth, mae’n hyrwyddo ethos cynhwysol a gofalgar ble caiff pob disgybl ei gynorthwyo i lwyddo. Maent wedi rhoi ystyriaeth ofalus i effaith y pandemig ar staff, disgyblion a’u teuluoedd, ac mae hyn wedi dylanwadu ar eu blaenoriaethau a’u prosesau. At ei gilydd, mae systemau arweinyddiaeth yn gweithio’n dda ac arweinwyr ar bob lefel yn meddu ar ddealltwriaeth addas o’r prif gryfderau a gwendidau yn eu meysydd cyfrifoldeb. Fodd bynnag, o ganlyniad i’r ffaith fod grŵp bach o arweinwyr yn gyfrifol am agweddau arwyddocaol ar waith yr ysgol, nid oes ganddynt ddealltwriaeth ddigon cynhwysfawr o’r holl feysydd. Ceir prosesau

addas ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio gwelliant, ond ni chaiff pob un o'r agweddau ar waith yr ysgol eu gwerthuso'n ddigon trylwyr, ac nid yw medrau gwerthusol arweinwyr wedi'u datblygu'n ddigonol.

## Argymhellion

A1 Cynyddu capasiti'r tîm arweinyddiaeth fel bod cyfrifoldebau'n cael eu dosbarthu'n fwy cyfartal ar draws ystod o arweinwyr ar bob lefel, a bod pob arweinydd yn meddu ar ddealltwriaeth well o waith ei gilydd

A2 Cynyddu'r cyfleoedd i ddisgyblion ddathlu eu hunaniaeth Gymreig, a datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus a dwyieithog yn Gymraeg a Saesneg, fel ei gilydd

A3 Gwella'r ddarpariaeth yn y lleiafrif o wersi lle nad yw disgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent, a gwella ansawdd yr adborth i ddisgyblion ar eu gwaith

A4 Gwella medrau gwerthusol arweinwyr fel bod ganddynt ddealltwriaeth fwy trylwyr o bob agwedd yn eu meysydd cyfrifoldeb

A5 Gwella'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau digidol disgyblion ar draws y cwricwlwm a thrwy gydol y flwyddyn ysgol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mewn llawer o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau, ac mewn ychydig o wersi arbennig o effeithiol, maent yn gwneud cynnydd cryf iawn. Mewn lleiafrif o wersi, er bod disgyblion yn gwneud cynnydd, mae natur yr addysgu yn eu hatal rhag gwneud cymaint o gynnydd ag y gallant, ac felly nid ydynt yn cyflawni eu llawn botensial. Mewn ychydig o wersi, nid yw disgyblion yn gwneud cynnydd digonol.

Un o'r nodweddion nodedig yw'r ffaith fod llawer o ddisgyblion yn arbennig o dda wrth alw dysgu blaenorol i gof. Mae llawer ohonynt yn ymateb yn wybodus i gwisiau, cwestiynau a thasgau. O roi'r cyfle iddynt, mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso eu dysgu'n dda i gyd-destunau newydd.

Mae llawer o ddisgyblion yn awyddus i ateb cwestiynau a chyfrannu at drafodaethau dosbarth. Mae'r disgyblion hyn yn cynnig ymatebion tra ystyriol ac yn esbonio eu rhesymeg yn synhwyrol. Mae ychydig o ddisgyblion yn hynod huawdl a soffistigedig yn eu ffordd o feddwl, er enghraifft pan fyddant yn trafod effaith y rhyfel yn Wcráin ar amrywiaeth o bobl, gan gynnwys Arlywydd y wlad. Mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn glir ac yn defnyddio terminoleg bwnc yn briodol. Mae ychydig o ddisgyblion yn amharod i gyfrannu at drafodaethau dosbarth. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar ei gilydd, ac ar staff.

Mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau Cymraeg. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid yw mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd digonol yn eu medrau Cymraeg a dwyieithog dros gyfnod. Mae'r mwyafrif ohonynt naill ai'n amharod i siarad Cymraeg, neu heb yr hyder i'w siarad, er bod llawer ohonynt yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r iaith. Hyd yn oed pan fyddant yn cael cyfarwyddyd i siarad Cymraeg mewn gwersi, maent yn tueddu i droi i'r Saesneg.

Ar draws y cwricwlwm, mae disgyblion yn elwa ar gyfleoedd rheolaidd i ddarllen ar goedd. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn darllen ar goedd yn glir a gyda phwyslais priodol, er bod ychydig ohonynt yn baglu dros eu geiriau. Mae ychydig o ddisgyblion yn amrywio tôn eu llais a'u mynegiant yn effeithiol wrth ddarllen ar goedd.

Mae llawer o ddisgyblion yn dod o hyd i wybodaeth sylfaenol o amryw destunau yn effeithlon, ac mae'r mwyafrif ohonynt yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o fwriadau awduron, yn enwedig mewn testunau ffeithiol. Mae'r mwyafrif ohonynt yn defnyddio terminoleg bwnc yn briodol i ddadansoddi technegau ysgrifennu, er bod lleiafrif ohonynt yn tueddu i sylwi ar dechnegau, yn hytrach na dadansoddi effaith gyfunol arddull a chynnwys. Mae gan leiafrif o ddisgyblion fedrau darllen cryf ar lefel uwch. Er enghraifft, maent yn cyfosod gwybodaeth o ystod o ffynonellau yn effeithlon wrth ystyried llafur plant yn ystod y chwyldro diwydiannol mewn hanes. Hefyd, maent yn datblygu eu medrau dadansoddi'n dda pan fyddant yn dadansoddi barn gyferbyniol ar sancteiddrwydd bywyd mewn addysg grefyddol, ac wrth ddadansoddi barddoniaeth mewn gwersi Cymraeg a Saesneg. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn cael trafferth dadansoddi ystyr ymhlyg sylfaenol.

Wrth ysgrifennu, mae llawer o ddisgyblion yn trefnu eu gwaith ysgrifenedig yn rhesymegol ac yn defnyddio paragraffau’n briodol. Mae gan y mwyafrif ohonynt eirfa gadarn ac yn ysgrifennu â chywirdeb technegol ar gyfer eu hoedran. Mae mwyafrif y disgyblion yn amrywio dechrau eu brawddegau yn addas ac mae eu hymwybyddiaeth o gynulleidfa yn datblygu. Maent yn ysgrifennu’n briodol mewn ystod o ffurfiau ffeithiol, a ffurfiau ffuglen, i raddau llai. O roi’r cyfle iddynt, maent yn ysgrifennu’n estynedig yn briodol. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud camgymeriadau cyson, diofal ac yn cael trafferth ysgrifennu’n estynedig.

Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau rhif sylfaenol da. Er enghraifft, gallant ddefnyddio dulliau cyfrif effeithlon i gyfrifo swm ar ôl gostyngiad canran. Maent yn lluosi a rhannu rhifau degol yn gywir ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o siâp a mesurau. Er enghraifft, gall llawer ohonynt gymhwyso eu dealltwriaeth o Theorem Pythagoras i ddatrys problemau wedi’u geirio sydd wedi’u gosod yn eu cyd-destun, neu broblemau â sawl cam. Mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar fedrau cadarn wrth drin data. Maent yn cyfrifo mesurau cyfartaleddau yn gywir ac yn plotio graffiau’n gywir. Ym mwyafrif yr achosion, mae disgyblion yn gwneud dadansoddiad sylfaenol o’u graffiau i lunio casgliadau synhwyrol, ond mewn lleiafrif o achosion, nid yw disgyblion yn defnyddio eu graffiau i lunio casgliadau. Mae medrau rhif ychydig o ddisgyblion yn wan. Er enghraifft, maent yn cael trafferth tynnu rhifau’n gywir neu nid ydynt yn talgrynnu rhifau’n gywir.

Mae gan ddisgyblion fedrau digidol sylfaenol priodol, fel prosesu geiriau, defnyddio’r rhyngrwyd ar gyfer ymchwil a chreu cyflwyniadau. Ar y cyfan, nid ydynt yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau digidol.

Pan roddir cyfleoedd iddynt, mae disgyblion yn datblygu eu creadigrwydd a’u medrau meddwl a medrau corfforol yn dda. Er enghraifft, maent yn defnyddio technegau cysgodi, lliw a dŵr i ddatblygu gwaith celf i gynrychioli mudiad achos neu brotest o’u dewis nhw. Mae mwyafrif y disgyblion yn ymateb yn dda i her datrys problem ac yn adeiladu ar syniadau disgyblion eraill i ddatblygu eu meddwl, er enghraifft wrth drafod rhinweddau gwahanol ddeunyddiau mewn prosesau gweithgynhyrchu mewn technoleg. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau echddygol bras yn briodol, er enghraifft wrth ddefnyddio cyllell i dorri llysiau i wneud *enchiladas* mewn gwersi technoleg bwyd.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da. Mae disgyblion yng Nghanolfan Seren Teifi yn gwneud cynnydd cadarnhaol yn yr amrywiaeth eang o agweddau a gwmpesir yn eu cwricwlwm. Maent yn gwneud cynnydd da, o gymharu â’u gallu, mewn darllen ac yn eu medrau trefnu. Er enghraifft, maent yn defnyddio’r medrau hyn, yn ogystal â’u medrau rhifedd, i ddidoli a chyfrif eitemau o ddillad. Gwnânt gynnydd arbennig o gryf o ran datblygu eu medrau bywyd a’u medrau cymdeithasol. Maent yn datblygu a meithrin cyfeillgarwch, ac yn gyfforddus yn sgwrsio ag oedolion ac ymwelwyr, er enghraifft.

Mae disgyblion y chweched dosbarth yn aeddfed ac yn barod i siarad, a gall llawer ohonynt siarad yn huawdl yn Gymraeg a Saesneg fel ei gilydd. Mae llawer ohonynt yn galw dysgu blaenorol i gof yn fedrus, ac yn cymhwyso hyn yn dda i sefyllfaoedd newydd. Er enghraifft, mewn mathemateg, maent yn cymhwyso eu dealltwriaeth o geometreg llinell syth i ddatrys problemau’n llwyddiannus sy’n cynnwys croestoriad

llinellau a chylchoedd. Maent yn gwrando'n astud ar esboniadau ac yn ateb cwestiynau'n fedrus, gan esbonio eu rhesymeg yn glir.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae agweddau cadarnhaol disgyblion at ddysgu a'u medrau cymdeithasol tra datblygedig yn nodweddion nodedig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn llawen a chyfeillgar, ac yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd, staff ac ymwelwyr. Mae llawer ohonynt yn ystyriol a gofalus o bobl eraill. Maent yn dathlu amrywiaeth ac yn angerddol ynglŷn â hyrwyddo cydraddoldeb i'r holl ddisgyblion. Mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'u gwersi, ac yn ymroi i'w dysgu. Maent yn gweithio'n ddiwyd trwy gydol eu gwersi, gan ddal ati i ganolbwyntio'n dda. Mae'r disgyblion hyn yn gweithio'n effeithiol yn unigol, ac yn gweithio'n llwyddiannus mewn parau neu grwpiau bach hefyd. Mae ganddynt foeseg waith gref, ac yn datblygu'n dda fel dysgwyr annibynnol. Mae llawer o ddisgyblion yn ymfalchïo yng nghyflwyniad eu gwaith. Nid yw ychydig o ddisgyblion yn ymgymryd yn gadarnhaol â'u gwaith, ac mae ychydig o ddisgyblion yn camymddwyn mewn gwersi.

Mae disgyblion yng Nghanolfan Seren Teifi yn dangos agweddau eithriadol o gadarnhaol at ddysgu. Maent yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig yn y gweithgareddau dysgu y maent yn ymgymryd â nhw. Gyda chymorth, maent yn gweithio'n dda yn annibynnol, ac yn datblygu eu hyder a'u gwydnwch yn effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol gynhwysol hon ac yn gwybod pwy sy'n gallu eu helpu a'u cefnogi. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n effeithiol ac yn brydlon â'r achosion prin iawn o fwlio. Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth glir o sut i wneud dewisiadau iach, ac yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau chwaraeon allgyrsiol addas.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda fel dysgwyr uchelgeisiol a galluog. Mae hyn yn arbennig o wir mewn gweithgareddau lle maent yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u medrau pwnc, ac yn creu cysylltiadau rhwng gwahanol destunau. Yng nghyfnod allweddol 3, mae llawer o ddisgyblion yn ymgysylltu'n aeddfed â'r gweithgareddau magu hyder a gwydnwch a gynhelir yn ystod cyfnodau cofrestru, fel y sesiynau ymwybyddiaeth ofalgar. Maent yn dechrau cymhwyso'r dysgu hwn i'w helpu i gefnogi eu lles eu hunain.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda fel dinasyddion moesegol a gwybodus. Maent yn siarad yn aeddfed am faterion sy'n bwysig iddyn nhw ac yn trafod themâu amserol, fel ymwybyddiaeth iechyd meddwl, tlodi mislif a delwedd corff, gyda hyder a sensitifrwydd.

Mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn ymgymryd â rolau arwain ac yn cymryd rhan yng ngrwpiau'r ysgol, gan gynnwys y cyngor ysgol. Mae'r disgyblion hyn yn chwarae rhan weithredol ym mywyd yr ysgol, ac mae eu gwaith wedi cael effaith gadarnhaol ar agweddau pwysig, fel trefnu ffreutur yr ysgol. Maent yn paratoi ac yn arwain gwasanaethau, gan godi ymwybyddiaeth am faterion fel hawliau plant. Mae llawer o ddisgyblion yn y

chweched dosbarth yn ymgymryd â rolau fel swyddogion, ac yn cynorthwyo disgyblion iau yn yr ysgol.

Yn sgil pandemig y Coronafeirws, ni fydd arolygwyr yn adrodd ar gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod blynyddoedd academaidd 2020-2021 a 2021-2022. Bydd arolygwyr, fodd bynnag, yn ystyried darpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o faes arolygu 4 (gofal, cymorth ac arweiniad).

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae llawer o athrawon yn weithwyr proffesiynol cydwybodol sy'n awyddus i ddatblygu a gwella eu harfer. Gellir gweld eu hymrwymiad i'r ymdrech ysgol gyfan i wella addysgu yn y ffordd y maent yn cymhwyso ac yn addasu strategaethau a ddatblygwyd trwy'r rhaglen dysgu proffesiynol. Mae'r gwaith hwn yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau ar addysgu.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meithrin perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda disgyblion. Maent yn darparu amgylchedd gweithio pwrpasol a chefnogol, ac mae llawer ohonynt yn defnyddio atgyfnerthu cadarnhaol yn effeithiol. Mae gan lawer ohonynt ddisgwyliadau uchel o ymddygiad disgyblion, ac maent yn rheoli eu hymddygiad yn effeithiol. Mewn ychydig o wersi, nid yw athrawon yn rheoli ymddygiad disgyblion yn ddigon da, ac nid ydynt yn ymateb yn briodol i'r ychydig ddisgyblion nad ydynt yn ymgysylltu â'u dysgu. Mae cynorthwywyr addysgu yn darparu cymorth sensitif ac effeithiol i ddisgyblion mewn gwersi.

Mae athrawon yn meddu ar wybodaeth bwnc gref ac yn fodelau iaith da mewn Saesneg, ac mewn Cymraeg mewn gwersi Cymraeg. Er gwaethaf hyn, yn gyffredinol, nid yw athrawon yn cefnogi nac yn dathlu medrau dwyieithog disgyblion yn ddigon da. Er enghraifft, mae athrawon yn tueddu i beidio â defnyddio terminoleg ddwyieithog nac yn defnyddio llawer o Gymraeg o gwmpas yr ysgol nac mewn gwersi.

Mae llawer o athrawon yn rhoi cyfarwyddiadau ac esboniadau clir. Mae ychydig ohonynt yn modelu arfer yn effeithiol ac yn cynnig enghreifftiau gwerthfawr. Mae hyn yn helpu disgyblion i ddeall beth ddylent fod yn ei wneud, ac yn rhoi darlun clir iddynt o sut beth yw gwaith da.

At ei gilydd, mae llawer o athrawon yn cynllunio dilyniant addas o weithgareddau buddiol sy'n cynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd. Maent yn darparu adnoddau defnyddiol ac yn cynllunio gweithgareddau sy'n adeiladu'n gynyddrannol ar ei gilydd i alluogi plant i ddysgu mewn camau. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid yw natur tasgau na chyflymdra'r gwersi yn galluogi disgyblion i gyflawni eu potensial. Er enghraifft, nid yw tasgau'n cynnig lefel addas o her neu gymorth i ddisgyblion, yn enwedig y rhai mwy abl. Mewn enghreifftiau eraill, mae athrawon yn treulio'n rhy hir ar weithgareddau paratoadol neu weithgareddau sy'n rhy debyg, sy'n golygu bod cyflymdra'r dysgu yn rhy araf.

Mae llawer o athrawon yn defnyddio cwestiynau caeedig yn effeithiol, yn enwedig i wirio dysgu blaenorol ar ddechrau gwersi. Mae'r mwyafrif ohonynt yn defnyddio cydbwysedd priodol rhwng cwestiynau caeedig a chwestiynau sy'n annog disgyblion i feddwl yn ddyfnach a datblygu eu hymatebion. Maent hefyd yn defnyddio byrddau

gwyn bach yn effeithiol i gael amcan o wybodaeth a dealltwriaeth pob un o'r disgyblion. Mae lleiafrif o athrawon yn gorddefnyddio cwestiynau caeedig ac nid ydynt yn procio meddwl disgyblion yn ddigonol. Mewn ychydig o enghreifftiau, mae athrawon yn dibynnu ar yr un disgyblion i ateb cwestiynau, neu'n ateb eu cwestiynau eu hunain.

Mewn gwersi, mae llawer o athrawon yn cynnig adborth llafar buddiol ac adeiladol. Maent yn mynd o amgylch y dosbarth yn bwrpasol, gan gynorthwyo disgyblion yn dda. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi adborth ysgrifenedig dosbarth cyfan i ddisgyblion ar eu gwaith. Pan gaiff hyn ei gyfuno ag adborth llafar neu ysgrifenedig penodol a phersonol i unigolion, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o beth maent yn ei wneud yn dda a beth mae angen iddynt ei wneud i wella. Fodd bynnag, yn rhy aml, ychydig iawn o adborth personol, os o gwbl, a roddir i unigolion, a phrin yw'r sylw a roddir i sillafu a gramadeg disgyblion. Yn yr achosion hyn, mae dealltwriaeth disgyblion o'u cryfderau a'u gwendidau eu hunain yn rhy annelwig. Mae llawer o athrawon yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth, er bod disgwyliadau athrawon ynghylch ymatebion disgyblion yn rhy amrywiol.

Ceir system olrhain a monitro academaidd addas. Mae penaethiaid cyfadrannau ac arweinwyr cynnydd yn dadansoddi'r deilliannau o amrywiaeth o wybodaeth asesu yn briodol ac yn nodi disgyblion sydd angen ymyrraeth ychwanegol. Yn gyffredinol, mae adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol i rieni, ac mae athrawon yn darparu sylwadau buddiol a thargedau ar gyfer gwella.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm addas sy'n bodloni anghenion academaidd bron pob un o'r disgyblion. Ceir ystod o ddewisiadau pwnc gwerthfawr yng nghyfnodau allweddol 4 a 5, gan gynnwys mathemateg ychwanegol ar gyfer disgyblion mwy abl, a chyrsiau galwedigaethol fel gwallt a harddwch ac atgyweirio a chynnal a chadw cerbydau ysgafn. Yn y chweched dosbarth, mae'r ysgol wedi ehangu'r cynnig i gynnwys cyrsiau fel mathemateg bellach a Ffrangeg trwy gydweithio â darpariaeth e-sgol. Wrth ddewis eu pynciau opsiwn, mae'r ysgol yn darparu gwybodaeth ac arweiniad buddiol i ddisgyblion wneud dewisiadau gwybodus.

Mae gwaith ar ddylunio'r cwricwlwm, ynghyd â ffocws ar wella addysgu, wedi arwain at weledigaeth gref a chlir ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Mae staff wedi datblygu a phrofi unedau gwaith diddorol sy'n anelu at ddatblygu gwybodaeth bwnc, dealltwriaeth a medrau disgyblion, yn ogystal â hyrwyddo'r pedwar diben, er enghraifft mewn gwersi iechyd a lles, lle mae disgyblion yn ymchwilio i effeithiau ymarfer corff a diet ar batrymau cwsg. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae staff wedi treialu amrywiaeth o ddulliau, wedi gwerthuso'u heffeithiolrwydd ac wedi addasu eu cynllunio yn unol â hynny.

Mae'r ysgol yn darparu ystod addas o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 3. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion a fynychodd ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn parhau i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, yng nghyfnodau allweddol 4 a 5, mae cyfleoedd i ddisgyblion barhau i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn gyfyngedig. Mae hyn yn golygu na roddir digon o gyfleoedd i ddisgyblion sy'n siaradwyr Cymraeg medrus barhau i ddatblygu'n ddysgwyr dwyieithog hyderus.

Mae'r ysgol yn darparu ystod o gyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws meysydd perthnasol o'r cwricwlwm. Yn dilyn y pandemig, mae'r ysgol wedi canolbwyntio ar strategaethau pwrpasol i wella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys sesiynau darllen dan arweiniad i wella hyder disgyblion yn darllen, ac annog darllen er pleser. Maent hefyd yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddarllen ar goedd mewn gwersi. Mae'r ysgol wedi datblygu ystod o dasgau rhifedd buddiol i fagu hyder disgyblion mewn gwaith rhif, ac atgyfnerthu eu medrau. Er enghraifft, mewn technoleg bwyd, maent yn datblygu eu medrau mesur a chostiadau trwy addasu meintiau ryseitiau yn ôl nifer y dognau sydd eu hangen. Mewn daearyddiaeth, maent yn cyfrifo dwysedd y boblogaeth yng Nghymru i greu map dot dosbarthiad.

Mae'r ysgol wedi dechrau cynllunio cyfleoedd ar draws y cwricwlwm i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol, ond mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran y rhain. Ar hyn o bryd, mae cyfleoedd annigonol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol ar draws y cwricwlwm.

Mae rhaglen deilwredig o addysg bersonol a chymdeithasol yn cefnogi datblygiad medrau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion yn dda yng nghyfnod allweddol 3. Yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth, nid yw'r ysgol wedi cynllunio'n ddigon da ar gyfer datblygu addysg bersonol a chymdeithasol, ac addysg cydberthynas a rhywioldeb disgyblion.

Mae gweithgareddau cyfoethogi gwerthfawr ar gael i ddisgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys teithiau lleol a rhyngwladol, a chlybiau fel pêl-fasged, côr, garddio a phrosiect technoleg Rasio Aberteifi Tigers.

**Gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae Ysgol Uwchradd Aberteifi yn gymuned ofalgar a chynhwysol. Rhoddir blaenoriaeth allweddol i iechyd a lles emosiynol disgyblion, ac fe gaiff ei hyrwyddo'n dda trwy weithgareddau o ddydd i ddydd, a'i ategu gan ei system gofal bugeiliol.

Mae staff y tîm bugeiliol yn meddu ar wybodaeth ragorol am anghenion disgyblion unigol. Maent yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i gefnogi anghenion emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol disgyblion, a sicrhau eu bod yn barod i ddysgu a chael y gorau o fywyd ysgol. Cefnogir disgyblion yn llwyddiannus trwy amrywiaeth o ddarpariaethau sy'n cynnwys Hafan, Canolfan Cardi, Space a'r Ganolfan Gyflawni. Mae'r cymorth hwn wedi bod yn hynod werthfawr i alluogi disgyblion unigol i ailintegreiddio yn dilyn y cyfnodau clo. Yng Nghanolfan Seren Teifi, mae disgyblion o bob oedran yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i ddatblygu eu medrau bywyd yn llwyddiannus mewn amgylchedd diogel ac ysgogol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol i sicrhau cymorth a chyfleoedd ychwanegol effeithiol ar gyfer disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau'r nyrs ysgol, cynghorydd gyrfaoedd a gwasanaethau cwnsela. Mae'r gweithwyr ieuenctid a'r mentoriaid dysgu sy'n rhan o'r Porth Cymorth Cynnar yn rhoi cymorth gwerthfawr i ddisgyblion hefyd.

Mae'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CydADY) a'i thîm yn meddu ar ddealltwriaeth drylwyr o anghenion disgyblion, ac maent yn cydlynu'r rhaglen

gymorth sydd ar gael i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn dda. Mae'r ysgol wedi paratoi'n briodol ar gyfer bodloni gofynion y Bil ADY. Mae proffiliau un dudalen a chynlluniau addysg unigol yn darparu gwybodaeth fanwl am anghenion disgyblion, ac yn cynnwys targedau clir a mesuradwy. Mae staff yn dechrau defnyddio'r wybodaeth hon i lywio eu cynllunio a'u hasesu.

Mae'r ysgol yn darparu ymyriadau llythrennedd a rhifedd addas i gynorthwyo disgyblion â medrau gwannach. Caiff y rhain eu gwerthuso a'u haddasu'n rheolaidd i fodloni anghenion y disgyblion.

Mae gan yr ysgol brosesau clir ac effeithiol ar gyfer monitro ac adrodd ar bresenoldeb disgyblion unigol. Diwygiodd yr ysgol ei pholisi Gwrthfwlio a Charedigrwydd yn ddiweddar i ymateb i'r heriau a wynebwyd ar ôl y cyfnod clo. Mae gweithdrefnau ar gyfer delio ag achosion o fwlio yn glir. Mae gan yr ysgol system ymddygiad a gwobrau eang. Mae llawer o staff yn cymhwyso'r polisi hwn yn effeithiol, ond nid yw ychydig o staff yn gwneud hynny'n ddigon cyson.

Mae'r cyngor ysgol yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn dylanwadu ar benderfyniadau am fywyd ysgol yn effeithiol. Yn ogystal â chael Cyngor Eco a Chyngor Digidol, mae'r disgyblion wedi sefydlu grŵp LHDTC+ dylanwadol sy'n hyrwyddo amrywiaeth a chydraddoldeb o fewn cymuned yr ysgol. Dylid adolygu prosesau ar gyfer dewis aelodau'r cyngor ysgol, ac mae angen datblygu llinellau cyfathrebu, fel bod pob un o'r disgyblion yn teimlo eu bod yn cyfrannu at waith y cyngor ysgol.

Mae gan yr ysgol raglen addas i gefnogi agweddau ar les disgyblion yn ystod cyfnodau cofrestru. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos angerdd a diddordeb o ran materion moesol a materion cyfoes. Fodd bynnag, ni roddir cyfleoedd digonol iddynt archwilio'r diddordebau hyn na chefnogi eu datblygiad ysbrydol.

Mae'r ysgol yn darparu ystod amrywiol ac eang o weithgareddau ar gyfer disgyblion y tu allan i amser gwersi arferol. Mae'r rhain yn cynnwys nifer o weithgareddau chwaraeon, Minecraft, codio, gemau bwrdd, côr ysgol, a'r Caffi Cardi. Mae Rasio Aberteifi Tigers wedi cynrychioli'r ysgol yn rheolaidd mewn gweithgaredd STEM lle gwnaethant ddylunio ac adeiladu eu car trydan eu hunain ar gyfer rasio cystadleuol.

Caiff trefniadau diogelu ac amddiffyn plant yr ysgol eu deall yn dda gan gymuned yr ysgol gyfan. Mae staff yn glir ynglŷn â'u rolau a'u cyfrifoldeb mewn cadw disgyblion yn ddiogel, ac yn annog disgyblion i ddathlu gwahaniaeth a hyrwyddo cydraddoldeb. Ceir protocolau sefydledig i godi pryderon ar gyfer lles disgyblion, er nad yw systemau'r ysgol ar gyfer cofnodi'r holl bryderon yn ddigon cadarn. Mae'r ysgol yn sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant priodol ar gyfer eu rolau mewn materion yn ymwneud â diogelu ac amddiffyn plant.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae'r pennaeth yn cyfleu gweledigaeth glir fod Ysgol Uwchradd Aberteifi yn gymuned gynhwysol lle gall pob disgybl gyrraedd ei botensial. Ymgorfforir y weledigaeth hon yn arwyddair yr ysgol, sef 'Bydd pob disgybl yn llwyddo', ac fe'i rhennir yn llwyddiannus â rhanddeiliaid. Mae hi'n angerddol ynglŷn â sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl ar gyfer disgyblion, ac yn darparu arweinyddiaeth sicr a myfyriol.

Yn ystod y cyfnodau clo ac ar ôl ailagor yr ysgol ar gyfer addysgu wyneb yn wyneb, rhoddodd y pennaeth ac arweinwyr eraill flaenoriaeth i les staff a disgyblion fel ei gilydd. Ymhlith mentrau eraill i hyrwyddo lles staff, mae'r ysgol yn cynnig gwasanaeth tŷ golchi i staff, mynediad at wasanaeth cwnsela cyfrinachol a dosbarthiadau ioga. Ar ôl dychwelyd i fywyd ysgol a phrosesau mwy cyffredin, mae uwch arweinwyr wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r cydbwysedd rhwng dwyn staff i gyfrif am eu gwaith a gwarchod eu lles.

Mae arweinyddiaeth bwrpasol ar bob lefel wedi sicrhau gwelliannau mewn meysydd allweddol o waith yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys ansawdd yr addysgu, y cynnydd a wna disgyblion, y ddarpariaeth ar gyfer lles, ac ymddygiad disgyblion, a'u hagweddau at ddysgu.

Caiff y pennaeth ei chynorthwyo'n addas gan yr uwch dîm arweinyddiaeth. Gyda'i gilydd, maent yn hyrwyddo amgylchedd dysgu pwyllog, trefnus a phwrpasol. Er bod rolau a chyfrifoldebau uwch arweinwyr wedi'u diffinio'n addas a'u dosbarthu'n briodol, ar y cyfan, mae cyfrifoldebau uwch arweinwyr yn sylweddol. Mae hyn yn golygu bod grŵp bach o arweinwyr yn ysgwyddo cyfrifoldebau sylweddol, sy'n creu heriau o ran cynnal ansawdd a gyrru gwelliannau pellach. Mae ganddynt drosolwg priodol o'r prif gryfderau a'r meysydd i'w gwella yng ngwaith yr ysgol, ond nid oes ganddynt ddealltwriaeth ddigon cynhwysfawr o bob maes.

Mae arweinwyr ar bob lefel wedi darparu arweinyddiaeth gadarn ar hyrwyddo blaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Ar ôl y cyfnodau clo, mae arweinwyr wedi canolbwyntio'n gryf ar wella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Yn ychwanegol, maent wedi blaenoriaethu cymorth ar gyfer disgyblion bregus i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Ceir darpariaeth gynhwysfawr i sicrhau bod y disgyblion hyn yn yr ysgol ac yn barod i ddysgu. Mae arweinyddiaeth ar gyfer gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn gryfder hefyd. Mae hyn yn cynnwys ffocws pwrpasol ar wella addysgu ochr yn ochr â datblygu'r cwricwlwm. Er y bu cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n astudio eu pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 3 yn ddiweddar, nid yw arweinwyr yn hyrwyddo nac yn cefnogi datblygiad dwyieithrwydd disgyblion yn ddigon da, ac nid ydynt yn annog disgyblion i ddefnyddio'r iaith yn gyson.

Ceir llinellau atebolrwydd clir, ac eir i'r afael â thanberfformio yn drylwyr. Mae uwch arweinwyr yn cyfathrebu'n effeithiol ag arweinwyr canol ac aelodau staff eraill trwy ystod o gyfarfodydd a dogfennau. Mae hyn yn sicrhau bod yr ysgol yn gweithredu'n effeithlon. Mae gan yr ysgol drefniadau rheoli llinell clir a systematig a cheir cyfarfodydd rheolaidd wedi'u cofnodi ar y calendr rhwng uwch arweinwyr ac arweinwyr canol. Yn y cyfarfodydd hyn, caiff arweinwyr drafodaethau buddiol ar ansawdd yr addysgu, a chynnydd a lles disgyblion. Mae hyn yn helpu sicrhau bod llawer o arweinwyr canol yn effeithiol yn eu rolau. Mae gan yr arweinwyr canol hyn ddealltwriaeth dda o'r prif gryfderau a meysydd i'w gwella yn eu meysydd cyfrifoldeb. Maent yn dwyn y rheiny maent yn eu rheoli yn dda trwy gyfarfodydd cyfadrannau rheolaidd. Mae trafodaethau yn y cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio'n briodol ar addysgu a dysgu.

Mae'r corff llywodraethol yn frwdfrydig ac yn gefnogol o'r ysgol. Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth briodol o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella, ac

maent yn darparu lefel addas o her i arweinwyr. Maent yn dechrau datblygu eu rôl o ran sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach.

Mae aelodau o is-bwyllgor cyllid y corff llywodraethol yn gweithio'n agos â'r pennaeth, y swyddog cyllid a swyddog cyllid yr awdurdod lleol i sicrhau bod adnoddau'r ysgol yn cael eu rheoli'n ofalus. Ar hyn o bryd, mae gan yr ysgol gyllideb dros ben. Mae gan arweinwyr gynlluniau manwl ar sut bydd yr arian dros ben hwn yn cael ei ddefnyddio dros y ddwy flwyddyn ariannol nesaf. Defnyddiwyd cyllid grant yn effeithiol i gefnogi lles a chyflawniad academaidd disgyblion.

Mae prosesau buddiol ar gyfer rheoli perfformiad pob un o'r staff. Yn gyffredinol, mae amcanion yn cyd-fynd yn dda â blaenoriaethau'r ysgol, ac fe'u cefnogir yn dda gan y rhaglen dysgu proffesiynol. Caiff cynnydd yn erbyn yr amcanion hyn ei fonitro'n rheolaidd.

Mae dysgu proffesiynol yn gryfder yn Ysgol Uwchradd Aberteifi ac fe gaiff ei gynllunio'n dda i gefnogi blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella. Mae'r ysgol yn darparu hyfforddiant buddiol ar gyfer athrawon i ddatblygu eu crefft yn yr ystafell ddosbarth. Mae cyfarfodydd rheolaidd gwerth chweil yn galluogi athrawon i gydweithio a rhannu arfer dda ar draws yr ysgol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ansawdd yr addysgu a'r cynnydd a wna disgyblion yn eu gwersi. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd i athrawon gymryd rhan mewn prosiectau ymchwil weithredu defnyddiol i ddatblygu addysgu a Chwricwlwm i Gymru. Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn darparu ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol i athrawon allu cefnogi lles disgyblion, gan gynnwys hyfforddiant i ddatblygu ymwybyddiaeth ofalgar.

Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr ar gyfer arweinwyr canol yn cynnwys hyfforddiant i ddatblygu medrau arwain a hyfforddi. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar y ffordd y mae arweinwyr canol yn cefnogi a herio staff yn eu cyfadrannau. Maent wedi cwblhau cwrs cymorth cyntaf iechyd meddwl hefyd i sicrhau eu bod yn gallu adnabod arwyddion fod staff yn dioddef o straen, a darparu strategaethau i'w cynorthwyo.

Mae gan yr ysgol gylch sefydledig, parhaus o ran hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae blaenoriaethau gwella'r ysgol yn glir a synhwyrol ac yn rhoi ystyriaeth addas i effaith y pandemig ar les a dysgu disgyblion, a'r effaith ar staff.

Mae calendr pwrpasol o weithgareddau hunanwerthuso yn cynnwys cyfleoedd i gasglu tystiolaeth uniongyrchol o ystod o ffynonellau, gan gynnwys arsylwadau gwersi a chraffu ar waith. Mae arweinwyr yr ysgol wedi addasu'r calendr hwn yn sensitif i ystyried lles staff ar ôl y pandemig. Mae llawer o arweinwyr ar bob lefel yn defnyddio'r prosesau hyn yn dda i nodi'r prif gryfderau a meysydd i'w gwella o fewn eu meysydd cyfrifoldeb, er na chaiff yr holl agweddau eu gwerthuso'n ddigon trylwyr.

Wrth werthuso addysgu ac asesu, yn rhy aml, mae arweinwyr yn or-ddibynnol ar ddata i fesur dysgu. Nid ydynt yn cyfuno data â chanfyddiadau manwl o dystiolaeth uniongyrchol yn ddigon da, ac nid ydynt bob amser yn ystyried effaith yr addysgu ar ddysgu a chynnydd disgyblion. O ganlyniad, nid ydynt yn nodi cryfderau penodol a meysydd i'w gwella mewn dysgu yn fanwl gywir.

Mae'r ysgol wrthi'n ailsefydlu prosesau i gasglu barn rhieni a disgyblion. Yn ddiweddar, mae wedi dechrau datblygu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion drafod addysgu a dysgu trwy bwyllgor addysgu a dysgu o fewn y cyngor ysgol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, lle bo'n briodol
- yn ymweld â sampl eang o wersi, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (http://www.estyn.llyw.cymru/)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  19/05/2022